**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

Yr holl Aelodau
Drwy e-bost

1 Rhagfyr 2022

Annwyl Aelod,

**Blaenoriaethu Busnes Pwyllgorau**

Yng nghyfarfodydd diweddar Fforwm y Cadeiryddion, mae pryderon wedi cael eu codi bod lleiafrif o Aelodau, ar adegau, yn blaenoriaethu ymrwymiadau eraill ar draul busnes eu pwyllgorau.

Cafodd Canllawiau diwygiedig ar Drafodion Rhithwir a Hybrid, gan gynnwys trafodion pwyllgorau eu cylchredeg yn ddiweddar. Hoffwn atgoffa Aelodau hefyd o bwysigrwydd neilltuo amser ar gyfer busnes pwyllgorau.

Mae absenoldeb achlysurol o gyfarfodydd pwyllgorau yn rhywbeth a ragwelir yn ein trafodion, ond pan fydd Aelodau yn absennol, disgwylir iddynt anfon dirprwy ar eu rhan i osgoi tarfu ar fusnes y pwyllgorau.

Un mater, a ddisgrifiwyd gan Gadeiryddion, yw bod rhai aelodau pwyllgor yn rheolaidd yn gadael ar ddiwedd rhan gyhoeddus cyfarfod. Golyga hyn eu bod yn absennol ar gyfer unrhyw eitemau agenda preifat a drefnwyd ar gyfer diwedd cyfarfod. Mae hyn yn amharu ar waith rhai pwyllgorau.

Mae Fforwm y Cadeiryddion wedi cymeradwyo adroddiad yr Athro Diana Stirbu: Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau’r Senedd: Datblygu fframwaith ar gyfer mesur effeithiolrwydd pwyllgorau.

Fel rhan o'i gwaith, ystyriodd yr Athro Stirbu nodweddion effeithiolrwydd pwyllgorau. Un nodwedd sy’n codi o’i hymchwil yw:

*Mae gan bwyllgorau effeithiol Aelodau sydd wedi ymgysylltu â'u gwaith yn llawn ac maent â diddordeb ynddo. Mae'r aelodau'n barod, yn gwrando ac yn cefnogi ei gilydd mewn sesiynau pwyllgor.*

Mae Cadeiryddion Pwyllgorau yn disgwyl i aelodau pwyllgorau ymwneud yn llawn â phob agwedd ar waith eu pwyllgorau, a rhoi mwy o flaenoriaeth i'w gwaith pwyllgor nag i'w hymrwymiadau eraill am y cyfnod llawn y bydd pwyllgor yn cyfarfod (gan gynnwys unrhyw eitemau preifat a drefnwyd). Mae hyn yn hanfodol os yw pwyllgorau am gyflawni eu hamcanion mewn modd effeithiol.

Wrth gwrs, mae'n bosibl y bydd aelod yn methu ag ymgysylltu'n llawn â gwaith pwyllgor am resymau dilys. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai Aelod drafod y mater â Chadeirydd y pwyllgor perthnasol. Gall Cadeirydd y pwyllgor bwyso a mesur y mater o safbwynt cefnogi'r Aelod ac o safbwynt cyflawni amcanion y pwyllgor.

Yn gywir,

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**

Y Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English